**Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU SY'N DYSGU**
**a gynhaliwyd yn Zoom ddydd Dydd Iau, 17 Chwefror 2022**

**PRESENNOL:** Cynghorydd Wyn Thomas (Cadeirydd), Cynghorwyr Cynghorydd Bryan Davies, Cynghorydd Euros Davies, Cynghorydd Marc Davies, Cynghorydd Meirion Davies, Cynghorydd Rhodri Davies, Cynghorydd Endaf Edwards, Cynghorydd Keith Evans, Cynghorydd Hag Harris, Cynghorydd Paul Hinge, Cynghorydd Gwyn James, Cynghorydd Alun Lloyd Jones, Cynghorydd Lynford Thomas a/ac Cynghorydd Ivor Williams

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Ellen ap Gwyn, Ray Quant, Catrin Miles, Catherine Hughes, Rhodri Evans, Ceredig Davies

1.30pm – 4.10pm

**1 Ymddiheuriadau**

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Odwyn Davies a Mark Strong am eu hanallu i fod yn bresennol yn y cyfarfod.

**2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

Dim

**3 Adroddiad ynghylch y gyllideb ddrafft ar gyfer 2022/23**

Gwnaeth Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu gyfarfod i ystyried cyllideb y Gwasanaeth ar gyfer y meysydd gwasanaeth hynny sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor ac ystyried yr argymhellion a ganlyn:

1. Ystyried y Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf cyffredinol a gynigir.
2. Ystyried pwysau amcangyfrifedig y costau a wynebir (£13.173m ar draws pob agwedd).
3. Ystyried y Ffioedd a'r costau arfaethedig a'r incwm ychwanegol o £155k a amcangyfrifir i helpu gyda'r Arbedion sydd eu hangen.
4. Nodi'r Targed Arbedion Teithio arfaethedig o £230k ar gyfer Swyddogion ac Aelodau.
5. Nodi'r Balans Arbedion o £113k y mae angen dod o hyd iddo o hyd.
6. Ystyried y 3 opsiwn a gynigir ar gyfer lefel Treth y Cyngor, sef 4.75%, 5.0% a 5.25%.

7. Rhoi unrhyw adborth priodol arall sy'n gysylltiedig â'r Gyllideb Ddrafft i'r Cabinet.

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, yr adroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2022/2023 gan gynnwys y rhaglen gyfalaf tair blynedd, gan egluro mai setliad dros dro yw hwn, a bod y setliad terfynol i fod i ddod ar Fawrth 1af, 2022.

Dywedodd yr Arweinydd hefyd fod llythyr wedi dod i law ar Chwefror 17eg 2022 oddi wrth Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn cyhoeddi cynnydd o £50m ar gyfer y setliad llywodraeth leol ar gyfer 2021-2022. Nid yw'r swm i'w ddyrannu i Gyngor Sir Ceredigion yn hysbys hyd yma ond mae'n debygol o fod oddeutu £1m. Nid yw’r cyllid wedi’i neilltuo (h.y. nid yw wedi’i ddyrannu i wasanaethau penodol) a gellir ei gario ymlaen mewn cronfeydd wrth gefn i flwyddyn ariannol 2022-2023. Eglurwyd y byddai angen ystyried goblygiadau’r cyllid ychwanegol hwn a sut y byddai hynny’n cael ei ddyrannu ar gyfer cyllideb 2022-2023.

Croesawodd yr aelodau’r cyllid ychwanegol ond mynegwyd siom bod y cyhoeddiad yn hwyr ac nad oedd yn caniatáu i graffu ddigwydd ar sail y wybodaeth newydd. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai gwybodaeth yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor ar Fawrth 3ydd 2022 ac y byddai cyfle i drafod ymhellach.

Cyflwynodd Aelod perthnasol y Cabinet y wybodaeth sy'n berthnasol i'w Faes Gwasanaeth. Yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb yn eu tro gan Aelodau’r Cabinet a/neu Swyddogion.

Ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor Bwysau’r Costau gyfer y meysydd gwasanaeth hynny sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, sef:
• Ysgolion a Diwylliant a Phorth Cymorth Cynnar

Ac:
Ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor y newidiadau arfaethedig i’r Ffioedd a Chostau o dan
Gylch gwaith y Pwyllgor yn Atodiad D, tudalennau 17 i 18 o 64, papurau’r agenda.

Cytunodd y Pwyllgor na fyddai’r 3 opsiwn a gynigiwyd ar gyfer lefelau Treth y Cyngor yn cael eu trafod yn y cyfarfod heddiw oherwydd cyhoeddiad Llywodraeth Cymru bod amcangyfrif o £1miliwn ychwanegol wedi’i ddyrannu i Gyngor Ceredigion. Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal yn y Cyngor.

Argymhellion:
Yn dilyn ystyriaeth, cytunodd yr Aelodau i argymell bod y Cabinet yn:
1. CYMERADWYO’r Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf cyffredinol a gynigir;
2. CYMERADWYO Pwysau amcangyfrifedig y Costau;
3. CYMERADWYO'r Ffioedd a Chostau arfaethedig fel yr amlinellir ym Mhapur D, atodiad 2 papurau’r agenda, (tudalennau 17-18 o 64)

4. CYTUNWYD i nodi’r Targed Arbedion Teithio arfaethedig o £230k ar gyfer Swyddogion ac Aelodau;
5. CYTUNWYD i nodi’r Balans Arbedion o £113k y mae angen dod o hyd iddo o hyd.

Nid oedd gan y Pwyllgor ddim adborth arall yn ymwneud â'r Gyllideb Ddrafft i'r Cabinet ei ystyried.

**4 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32**

Bu Aelodau’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy’n Dysgu yn ystyried Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynnwys y Cynllun am wyth wythnos, sef rhwng 20.9.21 a 12.11.21. Cafwyd ystod o ymatebion i’r ymgynghoriad hwnnw, sydd wedi’u coladu, ynghyd â sylwadau’r Awdurdod Lleol, yn y ddogfen ‘CSGA - ymateb i’r ymgynghoriad’.

Cyflwynwyd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg i Lywodraeth Cymru ar 31.1.22 a bydd unrhyw sylwadau a ddaw ganddynt yn cael eu cyflwyno fel gwelliannau i’r Cynllun gwreiddiol. Nid oes dyddiad penodol ar gyfer Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ei hymateb i Awdurdodau Lleol.

Ar ôl ystyried yr ymatebion i’r ymgynghoriad, CYTUNODD y Pwyllgor i argymell y canlynol i’r Cabinet:

i) Cytuno i fabwysiadu cynnwys Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2022-2032, a’i weithredu o Fedi 1 2022 ac am y ddegawd i ddilyn
ii) Bod unrhyw sylwadau a gynigir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cynnwys fel gwelliannau i’r Cynllun, ac yn cael eu cyflwyno i’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy’n Dysgu ac i’r Cabinet er gwybodaeth
iii) Bod Cynllun Gweithredu blynyddol yn cael ei lunio a’i fonitro drwy gyfrwng y Fforwm Iaith a phwyllgor Dyfodol Dwyieithog.
iv) Bod adroddiad blynyddol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn cael ei gyflwyno i’r Fforwm Iaith, pwyllgor Dyfodol Dwyieithog, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy’n Dysgu ac i’r Cabinet

**5 Cofnodion y cyfarfod blaenorol ac unrhyw faterion sy'n codi ohonynt**

CYTUNWYD i gadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2021

Materion yn codi

Nid oedd materion yn codi.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a gynhaliwyd ar Dydd Mercher, 2 Mawrth 2022**

**Cadeirydd:_________________**

**Dyddiad:**____________________